Deddf 1972 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994). Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu yn gyffredinol ar gyfer un aelod i bob rhanbarth etholiadol. Fodd bynnag, gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai darparu ar gyfer rhanbarthau etholiadol aml-aelod ar gyfer y brif ardal gyfan neu ran ohoni.

2.5 Mae'r rheolau hefyd yn mynnu:

O gadw mewn cof unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol y brif ardal sydd yn debygol o ddigwydd o fewn y cyfnod o bum mlynedd yn union wedi ystyried y trefniadau etholiadol -

- (a) yn amodol ar baragraff (b), y bydd y nifer o etholwyr llywodraeth leol, mor agos â phosibl, yr un fath ym mhob rhanbarth etholiadol yn y brif ardal;
- (b) lle ceir un neu fwy o ranbarthau aml-aelod, y bydd cymhareb y nifer o etholwyr llywodraeth leol i'r nifer o gynghorwyr i'w hethol, mor agos â phosibl, yr un fath ym mhob rhanbarth etholiadol yn y brif ardal (gan gynnwys unrhyw rai nad ydynt yn rhanbarthau aml-aelod);
- (c) y bydd pob ward o fewn cymuned sydd â chyngor cymuned (boed ar wahân neu'n gyffredin) yn gyfan gwbl o fewn un rhanbarth etholiadol; a
- (ch) y bydd pob cymuned nad yw wedi'i rhannu yn wardiau cymuned yn gyfan gwbl o fewn un rhanbarth etholiadol.

Yn amodol ar y rheolau hyn, a'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.4, mae'n rhaid i ni ystyried (a) pa mor ddymunol fydd pennu ffiniau sydd ac a fydd yn parhau i fod yn hawdd eu hadnabod; a (b) unrhyw gysylltiadau lleol fyddai'n cael eu torri drwy bennu unrhyw ffin arbennig.

Cyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru

2.6 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai darparu rhanbarthau etholiadol aml-aelod yn ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Comisiwn i'w harwain wrth gynnal yr arolwg:

- (a) Ystyrir bod angen isafswm o 30 o gynghorwyr er mwyn rheoli materion prif gyngor yn gywir.
- (b) Ystyrir, er mwyn lleihau'r perygl i brif gynghorau fynd yn anodd i'w trin a'u rheoli, na ddylent fel arfer gynnwys mwy na 75 o aelodau.
- (c) Ystyrir y dylid anelu at gael rhanbarthau etholiadol gyda chymhareb aelod i etholwyr heb fod yn is na 1:1750; a
- (ch) Ystyrir y dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha mor ddymunol fyddai darparu ar gyfer rhanbarthau etholiadol aml-aelod yn yr ardaloedd a nodir yng nghyd-destun:
 - (i) Ystyriaeth yn cael ei rhoi yn gyntaf i briodoldeb rhanbarthau un aelod; a

- (ii) Y cynnig y dylai rhanbarthau aml-aelod gael eu cefnogi yn gyffredinol gan yr etholwyr i'r graddau ág y gellir cael eu barn drwy fodloni'r gofyniad ymgynghori a gynhwysir yn adran 60 Deddf 1972 ac yn amodol ar gydymffurfio â'r Rheolau a gynhwysir yn Atodlen 11 Deddf 1972 a'r Cyfarwyddiadau eraill.

2.7 Yn ogystal â'r meini prawf a nodir yn y cyfarwyddiadau, bydd y Comisiwn yn ystyried ffactorau eraill yn amgylchiadau awdurdodau unigol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Swyddfa Gymreig yn dilyn hynny wedi hysbysu'r Comisiwn y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn edrych yn ffafriol ar argymhellion fydd yn "ystyried y boblogaeth wasgaredig yn yr awdurdodau gwledig, mwy."

Y Drefn

- 2.8 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn nodi'r canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol ag Adran 60 Deddf 1972 ysgrifenasom ar 29 Medi 1995 at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot, Cyngor Sirol Gorllewin Morgannwg, yr holl gynghorau dosbarth presennol, yr holl Gynghorau Trefol a Chymunedol yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol dros yr etholaethau lleol, cymdeithasau yr awdurdod lleol, awdurdod yr heddlu dros yr ardal a'r pleidiau gwleidyddol i'w hysbysu o'n bwriad i gynnal yr arolwg, er mwyn gofyn am eu safbwytiau cychwynnol a darparu copi o gyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Comisiwn. Gwahoddwyd y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gyflwyno eu hawgrymiadau o gynllun neu gynlluniau ar gyfer trefniadau etholiadol newydd. Hefyd, rhoesom gyhoeddusrwydd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol a ddosberthir yn y Bwrdeistref Sirol a gofynnwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn eu hardal.

3. CYNIGION DRAFFT

- 3.1 Derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot; Cyngorau Bwrdeistref Dyffrun Lliw a Phort Talbot; 5 Cyngor Tref a Chymuned; Y Gwir Anrhydeddus John Morris Q.C, AS drod Aberafon; Mr Peter Hain, A.S. Castell Nedd; a chyngorydd cymuned. Ystyrwyd y sylwadau hyn a cheir crynodeb ôhonynt yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 30 Mai 1996.
- 3.2 Argymhellodd ein Cynigion Drafft y dylid parhau gyda threfniadau presennol cyngor o 64 aelod a 42 o ranbarthau etholiadol fel a nodir yn Atodiad 1. Ystyrwyd bod y trefniadau presennol yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cwrdd mewn egwyddor â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- 3.3 Anfonwyd copi o'r Cynigion Drafft at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a chyrff ac unigolion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 2.8, yn gofyn am eu barn. Hefyd anfonwyd copi at unrhyw un a oedd wedi cyflwyno sylwadau rhagarweiniol. Drwy hysbysiad cyhoeddus gwahoddwyd unrhyw sefydliad neu berson arall oedd â diddordeb yn yr arolwg i gyflwyno eu sylwadau. Ceir copiâu o'r Cynigion Drafft i'w harchwilio yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a'r Comisiwn.

4. CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW MEWN YMATEB I'R GYNIGION DRAFFT

- 4.1 Derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot; 4 o Gynghorau Tref a Chymuned; Mr Peter Hain, A.S Castell Nedd; Cadeirydd Cymdeithas y Blaid Geidwadol; a chynghorydd cymuned. Ystyriwyd pob un o'r sylwadau hyn yn ofalus cyn i ni ffurfio ein cynigion.
- 4.2 Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot** yn derbyn yr holl gynigion drafft. Cytunwyd hefyd y dylai'r rhain nawr, heb eu diwygio ffurfio sail y Cynigion Terfynol sydd i'w cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Comisiwn.
- 4.3 Mae **Cyngor Cymuned Blaengwrach** yn llwyr gefnogi'r cynnig y dylai'r trefniadau presennol barhau.
- 4.4 Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Coedffranc** i ddweud bod y Cyngor yn llwyr gefnogi'r cynnig.
- 4.5 Ysgrifennodd **Cyngor Tref Castell Nedd** i hysbysu bod y Cyngor yn derbyn y Cynigion Drafft.
- 4.6 Ysgrifennodd **Cyngor Cymunedol Pontardawe** i ddweud eu bod wedi nodi na chynigiwyd newidiadau i'w hardal a'u bod yn dymuno cefnogi'r Cynigion Drafft.
- 4.7 Ysgrifennodd **Mr Peter Hain A.S. Castell Nedd** i gadarnhau ei fod yn cefnogi'r casgliadau a amlinellwyd yng Nghynigion Drafft y Comisiwn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot.
- 4.8 Ysgrifennodd **Mr J E John**, Cadeirydd Cymdeithas Plaid Geidwadol Castell Nedd i gynnig gostyngiad o'r 64 cyngphonydd presennol i 42 yn unol â'r nifer o ranbarthau fel y maent ar hyn o bryd. Gellid gostwng hyn ymhellach i 37 wrth ad-drefnu'r rhanbarthau. Noda Mr John bod cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn synhwyrol ond bod y gymhareb aelod i etholwyr sef 1:1,750 yn isel; byddai'n well ganddo 1:2,000. Mae'n cyfeirio at y ffin o rhwng 45% yn is na'r cyfartaledd i 52% yn uwch na'r cyfartaledd gan nodi bod hyn yn llawer gormod gan ei fod yn golygu y byddai rhai etholwyr yn cael eu cynrychioli ddwywaith yn well nag eraill. Mae Mr John yn nodi bod yr etholwyr yn pryeru'n fawr ynglŷn â pherfformiad y Bwrdeistref Sirol ac y byddai gostyngiad i 42 o gynghorwyr yn fanteisio i'r etholwyr ac yn darparu cynghorydd o safon uwch. Aeth Mr John ymlaen i ddweud na all weld unrhyw ddewis arall ond lleihau'r nifer o gynghorwyr i 42, a fydd yn gam pwysig tuag at ddatrys sefyllfa ariannol y Bwrdeistref newydd.
- 4.9 Ysgrifennodd **Mr J B Humphries**, un o gynghorwyr Ward Isaf Brynaman sydd ar Gyngor Cymunedol Gwaen-Cae-Gurwen, yn dweudd ei fod yn falch o ddatgan bod y Cynigion Drafft yn datgan y dylai'r sefyllfa aros fel y mae. O ran yr arolwg o ffiniau ward gymunedol yn ei ardal, mae Mr Humphries bellach wedi rhoi'r mater gerbron y Cyngor Cymunedol gan ofyn iddo gael ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot er mwyn cael penderfyniad o fewn chwe mis.

5. ASESIAD

Maint y Cyngor

- 5.1 Ar hyn o bryd mae maint y cyngor o 64 o aelodau o fewn y meini prawf a nodir yn y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Y gymhareb aelod i etholwyr bresennol ar gyfer y cyngor yw 1:1,676 sydd ddim ond 4% yn is na'r gymhareb o 1: 1,750 a nodir yn y cyfarwyddiadau. Ar hyn o bryd ceir 15 rhanbarth etholiadol aml-aelod.
- 5.2 Rydym wedi ystyried trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Castell Nedd Port Talbot yng ngoleuni cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol i'n harwain, ac, ar ôl ystyried y sylwadau a ddaeth i law, credwn y byddai maint y cyngor o 64 aelod yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Canlyniad y penderfyniad hwn ar faint y cyngor fydd cyfartaledd o 1,676 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd. Wrth ddod i'r casgliad hwn rydym wedi ystyried maint a chymeriad yr awdurdod ac amrywiaeth eang o ffactorau eraill yn cynnwys dwysedd y boblogaeth, topograffi lleol, cysylltiadau ffyrdd a chysylltiadau lleol.
- 5.3 Rydym wedi cynnal ag arolwg trylwyr i weld a ddylid cynnig newidiadau i'r rhanbarthau etholiadol presennol. I ddechrau edrychwyd ar gymhareb y nifer o etholwyr llywodraeth leol i'r nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol er mwyn ystyried a ddylid cynnig newidiadau i sicrhau bod y nifer o etholwyr llywodraeth leol, mor agos â phosibl, yr un fath ym mhob rhanbarth yn y brif ardal. Yna edrychwyd ar y rhanbarthau aml-aelod presennol i ystyried a ellid argymhell creu rhanbarthau un aelod.
- 5.4 Darganfuwyd, o fewn cyfyngiadau y gellir eu cyflawnhau, bod y gymhareb, mor agos â phosibl, yr un fath ym mhob rhanbarth yn y brif ardal. Roedd y nifer o etholwyr i bob aelod ar gyfer y rhanbarthau etholiadol presennol yn amrywio o 45% yn is na'r cyfartaledd sef 1 aelod i 1,676 o etholwyr ar gyfer y Bwrdeistref Sirol i 54% yn uwch.
- 5.5 Nodwyd y sylw a ddaeth i law gan Mr J E John, Cadeirydd Cymdeithas Plaid Geidwadol Castell Nedd sy'n cynnig gostyngiad ym maint y cyngor i 42 o aelodau. Canlyniad y cynnig hwn fyddau cyfartaledd o 2,553 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd. Yn seiliedig ar y rhanbarthau etholiadol presennol canlyniad hyn fyddai amrywiaeth o rhwng 64% yn is i 120% yn uwch na chyfartaledd y lefel o gynrychiolaeth ar gyfer y Bwrdeistref Sirol. Yn amlwg nid yw hyn yn cwrdd â'r gofyniad i sicrhau y bydd y nifer o etholwyr llywodraeth leol, mor agos â phosibl, yr un fath ym mhob rhanbarth yn y brif ardal. Er mwyn cyflawni'r tebygrwydd rhwng y rhanbarthau byddai angen ad-drefnu'r rhanbarthau etholiadol yn sylweddol, rhywbeth a fyddai'n anodd ei gyflawni o gofio ffiniau'r gymuned presennol a'r ward gymunedol a dosbarthiad yr etholwyr. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried fud newid mor arwyddocâol i drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar hyn o bryd.

Rhanbarthau Etholiadol Un Aelod

- 5.6 Rydym wedi ystyried ffiniau rhanbarthau etholiadol presennol: **Aberdulais, Alltwen, Blaengwrach, Gogledd Bryn-côch, Tregatwg, Gogledd Coedffranc, Gorllewin Coedffranc, Crynant, Glyncorwg, Gwaun-Cae-Gurwen, Gwynfi, Brynaman Isaf, Margam, Onllwyn, Pelenna, Rhos, Blaendulais, Tonna a Threbanos**, a chymhareb y nifer o etholwyr llywodraeth leol i'r nifer o gynghorwyr i'w hethol a chynigwn y dylai'r trefniadau presennol barhau.
- 5.7 O'r rhanbarthau sy'n weddill, mae pedwar (**Dwyrain Llansawel, Cymer, Resolfen ac Ystalyfera**) ar hyn o bryd dros 50% yn uwch na'r cyfartaledd. O'r rhain rhagwelir lleihad yn y

- nifer o etholwyr yn rhanbarthau **Dwyrain Llansawel a Chymer** fydd yn eu gosod o fewn 50% o'r cyfartaledd. Rhagwelir y bydd y nifer o etholwyr yn **Dyffryn**, sydd ar hyn o bryd o fewn 50% o gyfartaledd y Bwrdeistref Sirol, yn cynyddu fel y bydd nifer yr etholwyr i bob aelod ychydig dros 50% yn uwch na'r cyfartaledd yn seiliedig ar ragolygon y ffigurau etholiadol. Ystyriodd y Comisiwn leihau'r nifer o etholwyr i bob aelod yn yr ardaloedd hyn drwy asesu'r ymarferoldeb newid y cyfuniad o gymunedau a wardiau cymunedol. Ym mhob achos gwelwyd na ellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r cymunedau a'r wardiau cymunedol presennol heb dorri cysylltiadau cymunedol neu greu anghysonderau mawr yn y cymarebau aelod i etholwyr mewn rhanbarthau cyfagos. Ni chynigir unrhyw newid.
- 5.8 Rhanbarth arall a ystyriwyd yn fanwl oedd **Cwmllynfell**. Mae hon yn gymuned unigryw ac oherwydd hyn ystyrir y gellir cyflawnhau cynrychiolaeth ar wahân er mai dim ond 911 o etholwyr sydd yn y rhanbarth o gymharu â chyfartaledd 1,676 ar gyfer y Cyngor. Ni chynigir unrhyw newid.
- 5.9 Ystyriwyd y sylw a wnaed gan **Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw** yn cynnig aelod ychwanegol ar gyfer rhanbarth **Ystalyfera** ar sail cynnydd a ragwelir yn nifer yr etholwyr. Nododd y Comisiwn bod yr aelod ar gyfer **Ystalyfera** yn cynrychioli 2,519 o etholwyr, sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Bwrdeistref Sirol. Fodd bynnag mae'r nifer o etholwyr yn rhanbarth **Godre'r graig** yn is na'r cyfartaledd gan roi cymhareb i gymuned Ystalyfera yn ei chyfarwydd sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Bwrdeistref Sirol. Cynigiwn na ddylid newid y trefniadau etholiadol ar gyfer rhanbarthau **Ystalyfera a Godre'r graig**.
- 5.10 Byddai cynnig **Cyngor Tref Llansawel** i gyfuno rhanbarthau **Dwyrain Llansawel a Gorllewin Llansawel** yn creu rhanbarth aml-aelod newydd gyda 2 aelod. Mae gan y rhanbarthau etholiadol hyn (gyda 2,534 a 2,370 o etholwyr) yr hawl yn unigol i gynrychiolaeth o un cynghorydd yr un. Crewyd y rhanbarthau presennol gan Orchymyn Bwrdeistref Castell Nedd (Trefniadau Etholiadol) 1983 yn dilyn arolwg a gynhaliwyd gan y Comisiwn. Fel rhan o'r arolwg hwn cysylltwyd â phartïon oedd â diddordeb a daeth nifer o gynigion i law. Derbyniodd y Comisiwn y cynnig gan Grŵp Llafur Cyngor Bwrdeistref Castell Nedd i rannu Llansawel yn ddu ranbarth ac fe'i cynhwyswyd yn yr adroddiad Cynigion Drafft a'r adroddiad Cynigion Terfynol. Ar sail y nifer presennol o etholwyr byddai gan ranbarth cyfun Llansawel gyda 4,904 o etholwyr hawl i 2.9 o gynghorwyr. Rhagwelir y bydd nifer yr etholwyr yn gostwng erbyn y flwyddyn 2000, gan roi hawl i 2.8 o gynghorwyr i'r rhanbarth cyfun. Er bod Cyngor Tref Llansawel wedi datgan yr hoffent ddychwelyd i'r sefyllfa cyn 1983, rydym yn cadw mewn cof y rheolau a nodir yn Atodlen 11 Deddf 1972 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â pha mor ddymunol yw rhanbarthau un aelod. Cynigiwn na ddylid gwneud unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer rhanbarthau **Dwyrain Llansawel a Gorllewin Llansawel**.
- Rhanbarthau Etholiadol Aml-aelod.**
- 5.11 Mae rhanbarthau **Aberafon, De Bryn-côch, Port Talbot, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields a Tai-bach** i gyd naill ai'n gymunedau unigol neu'n wardiau cymunedol unigol gyda nifer fawr o etholwyr. Yn y rhanbarthau hyn ni fyddai'n bosibl creu rhanbarthau un aelod heb rannu'r cymunedau drwy lunio ffiniau ffug fyddai'n torri'r cysylltiadau lleol hir-sefydlog rhwng y ddwy ran o'r gymuned. Mae gan ranbarthau **Aberafon a Phort Talbot**, bob un â 3 aelod, hawl i 2.56 o gynghorwyr ar hyn o bryd, er y rhagwelir y bydd yr hawl ar gyfer y ddu rhanbarth yn gostwng gan fod y twf yn nifer yr etholwyr yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y Bwrdeistref Sirol. Rydym wedi ystyriyd y sylwadau a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol
- Castell Nedd a Phort Talbot a Chyngor Bwrdeistref Port Talbot ac rydym yn cynnig na ddylid gwneud unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer rhanbarthau **Aberafon a Phort Talbot**.
- 5.12 Mae'r rhanbarthau aml-aelod sy'n weddill yn cynnwys dau neu fwy o gymunedau neu wardiau cymunedol:-
- (i) Mae'r rhanbarth **Baglan** yn cynnwys cymunedau Baglan a Bae Baglan. Fodd bynnag mae Bae Baglan yn ardal ddiwydiannol heb etholwyr sy'n golygu y gall **Baglan** gael ei ystyried fel rhanbarth aml-aelod cymuned unigol;
 - (ii) Rhoddyd ystyriaeth i rannu'r rhanbarth etholiadol aml-aelod **Canol Coedffranc** yn ddu ranbarth un aelod. Mae'r rhanbarth hwn yn cynnwys wardiau Canol Dwyrain (1,323 o etholwyr) a Chanol (1,841 etholwyr) cymuned Coedffranc ac fe'i cynrychiolir gan ddu aelod. Byddai gan y rhanbarth Canol Dwyrain Coedffranc newydd nifer o etholwyr i bob aelod (1,323) fyddai'n is na'r cyfartaledd a rhagwelir y byddai'r etholaeth yn gostwng i 1,313 erbyn y flwyddyn 2000. Hefyd nodwyd bod Cyngor Cymuned Coedffranc wedi gofyn i'r rhanbarthau etholiadol presennol barhau. Nid ydym yn cynnig unrhyw newid;
 - (iii) Rhoddyd ystyriaeth hefyd i rannu'r rhanbarth etholiadol aml-aelod **Glyn Nedd** yn ddu ranbarth un aelod. Mae'r rhanbarth hwn yn cynnwys wardiau Dwyrain (787 o etholwyr), Canol (1,211 o etholwyr) a Gorllewin (921 o etholwyr) cymuned Glyn Nedd ac fe'i cynrychiolir gan ddu aelod. Ni fyddai'n bosibl creu dau ranbarth un aelod heb gyfuno Wardiau'r Dwyrain a'r Gorllewin nad ydynt yn gyson o ran ffiniau, ac yn cael eu gwahanu gan y ward Ganol, na thrwy ail-lunio ffiniau'r ward. Ni chynigir unrhyw newid; a
 - (iv) Mae'r rhanbarthau sy'n weddill fel a ganlyn;
- (a) **Bryn a Chwmafon** sy'n cynnwys cymunedau Bryn (741 o etholwyr) a Chwmafon (4,288 o etholwyr) a gynrychiolir gan 3 aelod;
 - (b) **Cimla** sy'n cynnwys wardiau Cefn Saeson (2,299 o etholwyr) a Chrynnallt (1,064 o etholwyr) yng nghymuned Castell Nedd a gynrychiolir gan 2 aelod;
 - (c) **Dwyrain Castell Nedd** sy'n cynnwys wardiau Melincrythan (2,378 etholwyr) a Phenrhiewtyn (2,416 o etholwyr) yng nghymuned Castell Nedd a gynrychiolir gan 3 aelod;
 - (ch) **Gogledd Castell Nedd** sy'n cynnwys wardiau Castell (478 etholwyr) a Llanilltud (2,862 o etholwyr) yng nghymuned Castell Nedd a gynrychiolir gan 2 aelod;
 - (d) **De Castell Nedd** sy'n cynnwys wardiau'r Gnoll (786 o etholwyr) a Mount Pleasant (2,792 o etholwyr) yng nghymuned Castell Nedd a gynrychiolir gan 2 aelod; a
 - (dd) **Pontardawe** sy'n cynnwys wardiau Pontardawe (3,377 o etholwyr) a Rhed-y-fro (587 o etholwyr) yng nghymuned Pontardawe a gynrychiolir gan 2 aelod.
- Er mwyn creu rhanbarthau un aelod gyda nifer tebyg o etholwyr bydd angen ail-lunio'r ffiniau'r gymuned a'r ward gymunedol. Mae nifer o etholwyr y cymunedau bach yn rhy fach i ffurfio rhanbarthau etholiadol ar eu pennau eu hunain. Ni chynigir unrhyw newid.

6. CYNIGION

- 6.1 Cynigiwn y dylai'r trefniadau presennol sef cyngor o 64 o aelod a 42 o ranbarthau etholiadol fel a nodir yn Atodiad 1 barhau. Dangosir ffiniau'r rhanbarthau etholiadol a gynigir gan linellau gwyrdd di-dor ar y map sydd ar gael i'w archwilio gyda'r Adroddiad hwn yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a Swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

7. CYDNABYDDIAETHAU

- 7.1 Hoffem fynegi ein diolch i'r holl brif gynghorau a chynghorau cymuned am eu cymorth yn ystod yr arolwg ac i'r holl gyrrff a phersonau a gyflwynodd sylwadau i ni.

YR ATHRO E SUNDERLAND MA PhD FIBiol (Cadeirydd)

E F L FITZHUGH OBE DL (Dirprwy Gadeirydd)

MRS S G SMITH LLB (Aelod)

R L KNIGHT BA, MSC, MRTPI

Medi 1996

AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR						
			Atodiad 1 Tudalen 1			
Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER Y CYNGHORWYR	ETHOLWYR CYNGHORWYD (1995)	HAWL O RAN CYNGHORWYR (1995)	ETHOLWYR CYNGHORWYD 2000
1	Aberfan	Cymuned Aberfan	3	4,382	1,461	2,61
2	Aberdulais	Wardiau Aberdulais 743 (822) a Chilffriw 710 (716) yng Nghymuned Blaenhonddan	1	1,453	1,453	0.87
3	Yr Allt-wen	Ward yr Allt-wen yng Nghymuned Cilybebyll	1	1,749	1,749	1.04
4	Baglan	Cymunedau Baglan a Bae Baglan	3	5,629	1,876	3.36
5	Blaen-gwrach	Cymuned Blaen-gwrach 877 (856) a Ward y Canol Gorllewinol 709 (692) yng Nghymuned Glyn-nedd	1	1,586	1,586	0.95
6	Dwyrain Llansawel	Wardiau Craigydarren 913 (891) a Chwrt-sant 1,621 (1,582) yng Nghymuned Llansawel	1	2,534	2,534	1.51
7	Gorllewin Llansawel	Wardiau Brynhyfryd 1,220 (1,191) a Snelone Wood 1,150 (1,122) yng Nghymuned Llansawel	1	2,370	2,370	1.41
8	Bryn a Chwmafan	Cymunedau Bryn 741 (830) a Chwmafan 4,288 (4,579)	3	5,029	1,676	3.00
9	Gogledd Bryn- côch	Ward Gogledd Bryn-côch yng Nghymuned Blaenhonddan	1	1,951	1,951	1.16
10	De Bryn-côch	Ward De Bryn-côch yng Nghymuned Blaenhonddan	2	3,004	1,502	1.79
11	Liangatwg	Ward Liangatwg yng Nghymuned Bleanhonddan	1	1,117	1,117	0.67
					1,296	1,296
						0.75

BWRDEISTREF SIROL CASTELL NEDD PHORT TALBOT

AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR

Tudalen 2							
Rhif	ENW	DISGRIFIAD		NIFER Y CYNGHORWYR	ETHOLWYR 1995	ETHOLWYR CYNGHORDD (1995)	HAWL O RAN CYNGHORWYR (1995)
12	Cimla	Wardiau Cefnseeson 2,299 (2,256)	a Chrymaitt 1064 (1,115) yng Nghymuned Castell-nedd	2	3,363	1,682	2,01
13	Coed-ffranc Ganol	Ward y Canol Dwyreiniol 1,323 (1,313) a'r Ward Ganol 1,841 (1,797) yng Nghymuned Coed-ffranc	2	3,164	1,582	1,89	3,371
14	Gogledd Coed-ffranc	Ward y Gogledd yng Nghymuned Coed-ffranc	1	1,896	1,896	1,13	3,110
15	Gorllewin Coed-ffranc	Wardiau'r Gorllewin 606 (647) a'r Canol Gorllewinol 1,054 (1,289) yng Nghymuned Coed-ffranc	1	1,660	1,660	0,99	1,555
16	Y Creunant	Cymuned Y Creunant	1	1,643	1,643	0,98	1,453
17	Cwmlynfell	Cymuned Cwmlynfell	1	911	911	0,54	935
18	Y Cymer	Ward y Cymer yng Nghymuned Glyncorwg	1	2,515	2,515	1,50	2,499
19	Dyffryn Glyncoed	Cymuned Dyffryn Clydach	1	2,509	2,509	1,50	2,586
20	Glyncoed	Ward Glyncorwg yng Nghymuned Glyncorwg	1	967	967	0,58	961
21	Glyn-nedd	Wardiau'r Dwyrain 787 (768), y Canol 1,211 (1,201) a'r Gorllewin 921 (937) yng Nghymuned Glyn-nedd	2	2,919	1,460	1,74	2,906
22	Godre'r graig	Ward Godre'r-graig yng Nghymuned Ystalyfera	1	1,196	1,196	0,71	1,422

卷之三

ÆLODAETH BRESENNOL Y CYNGOR

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER Y CYNGHORWYR	ETHOLWYR 1995	ETHOLWYR CYNGHORYDD (1995)	HAWL O RAN CYNGHORWYR (1995)	ETHOLWYR 2000	ETHOLWYR CYNGHORYDD (2000)	HAWL O RAN CYNGHORWYR (2000)
23	Gwauncaegurwen	Wardiau Cwm-gors 896 (942) a Gwauncaegurwen 1,362 (1,413) yng Nghymuned Gwauncaegurwen	1	2,258	2,258	1,35	2,355	2,355	1,37
24	Gwynfi	Ward Gwynfi yng Nghymuned Glyncorwg	1	1,253	1,253	0,75	1,245	1,245	0,72
25	Brynaman Isaf	Wardiau Brynaman Isaf 727 (746) a Thaïr-gwaith 311 (319) yng Nghymuned Gwauncaegurwen	1	1,038	1,038	0,62	1,065	1,065	0,62
26	Margam	Cymunedau Margam a Gweunydd Margam	1	1,413	1,413	0,84	1,412	1,412	0,82
27	Dwyrain Castell-nedd	Wardiau'r Melin cryddon 2,378 (2,321) a Phenriwtyn 2,416 (2,436) yng Nghymuned Castell-nedd	3	4,794	1,598	2,86	4,757	1,586	2,77
28	Gogledd Castell-nedd	Wardiau'r Castell 478 (466) a Llanilltud 2,862 (2,793) yng Nghymuned Castell-nedd	2	3,340	1,670	1,99	3,259	1,630	1,90
29	De Castell-nedd	Wardiau'r Gnoll 786 (767) a Mount Pleasant 2,792 (2,725) yng Nghymuned Castell-nedd	2	3,578	1,789	2,14	3,492	1,746	2,03
30	Onllwyn	Cymuned Onllwyn	1	1,015	1,015	0,61	991	991	0,58
31	Pelenna	Cynuned Pelenna	1	1,014	1,014	0,61	990	990	0,58
32	Pontardawe	Wardiau Pontardawe 3,377 (3,592) a Rhyd-y-fro 587 (743) yng Nghymuned Pontrardawe	2	3,964	1,982	2,37	4,335	2,168	2,52
33	Port Talbot	Cymuned Port Talbot	3	1,360	1,156	261	1,226	1,112	221

COUNTY BOROUGH OF NEATH AND PORT TALBOT

Appendix 1
Page 4

EXISTING COUNCIL MEMBERSHIP

No.	NAME	DESCRIPTION	No. OF COUNCILLORS	ELECTORATE 1995		ELECTORS PER COUNCILLOR 1995		COUNCILLOR ENTITLEMENT 1995		ELECTORATE 2000		ELECTORS PER COUNCILLOR 2000	
				ETHOLWYR 1995	CYNGHORWYR 1995	ETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000	ETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000	ETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000	ETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000
36	Sandfields East	The Community of Sandfields East	3	4,964	1,655	2,96	4,932	1,644	2,87				
37	Sandfields West	The Community of Sandfields	3	5,277	1,759	3,15	5,370	1,790	3,12				
38	Seven Sisters	The Community of Seven Sisters	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697	0,99				
39	Tai-bach	The Community of Tai-Bach	2	3,802	1,901	2,27	4,044	2,022	2,35				
40	Tonna	The Community of Tonna	1	1,694	1,694	1,01	1,831	1,831	1,07				
41	Trebanos	The Trebanos ward of the Community of Pontardawe	1	1,150	1,150	0,69	1,180	1,180	0,69	1,150	1,150	0,69	0,69
42	Ystalyfera	The Ystalyfera ward of the Community of Ystalyfera	1	2,519	2,519	1,50	2,586	2,586	1,50	2,519	2,519	1,50	0,69
		TOTAL		64	107,249	1,676	110,001	1,719		107,249	1,676	110,001	1,719

The number of electors for 1995 and 2000 (in brackets) are included in the description of those electoral divisions which comprise of more than one community/community ward.

Caiff nifer yr etholiwyr ar gyfer 1995 a 2000 (meini crwmfaethau) a'u gynnwys yn y diisgiliad o'r rhanbarthau etholiadol sy'n cynnwys mynyddoedd cymuonol.

Rhiw	ENW	DISGRIFIAID	NIFER Y CYNGHORWYR	ETHOLWYR 1995	CYNGHORWYR 1995	HAWL O'RAN 1995	EETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000	HAWL O'RAN 2000	EETHOLWYR 2000	CYNGHORWYR 2000
34	Resolven	Commendedau'r Cwn 654 (638) a Rhosolven 1,931 (1,979) a	1	2,585	2,585	1,54	2,617	2,617	1,52	2,87	
35	Rhos	Wardiau Gelli-ndd 369 (379) a Rhos 1,567 (1,728) yng Nghymaned Gorllewin Sandfields	3	4,964	1,655	2,96	4,932	1,644		1,23	
36	Dwyrafn Sandfields	Nghymaned Dwyrafn Sandfields	3	5,277	1,759	3,15	5,370	1,790			
37	Gorllewin	Cymuned Gorllewin Sandfields	3	4,964	1,655	2,96	4,932	1,644			
38	Tai-bach	Cymuned Blaenllais	1	1,936	1,936	1,16	2,107	2,107			
39	Tai-bach	Cymuned Gelli-ndd Cyfyngedol	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
40	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
41	Trebanos	Ward Trebanos yng Nghymaned Pontardawe	1	1,694	1,694	0,69	1,180	1,180			
42	Ystalyfera	Ward Ystalyfera yng Nghymaned Pontardawe	1	1,150	1,150	0,69	1,180	1,180			
43	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,694	1,694	0,69	1,180	1,180			
44	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
45	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
46	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
47	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
48	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
49	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
50	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
51	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
52	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
53	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
54	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
55	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
56	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
57	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
58	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
59	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
60	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
61	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
62	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
63	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
64	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
65	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
66	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
67	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
68	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
69	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
70	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
71	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
72	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
73	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
74	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
75	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
76	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
77	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
78	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
79	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
80	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
81	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
82	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
83	Tonna	Cymuned Tai-bach	2	3,802	1,901	1,01	3,831	1,831	1,07		
84	Tonna	Cymuned Tonna	1	1,739	1,739	1,04	1,697	1,697			
85	Tonna	Cymuned Tai									